

**WE ARE
#CARDIFFMET**

**BA (ANRH)
ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD CYNNAR
(GYDA STATWS YMARFERYDD Y
BLYNYDDOEDD CYNNAR)**

**YSGOL ADDYSG A PHOLISI
CYMDEITHASOL CAERDYDD**

Gwybodaeth Sefydlu ac Ymrestru

Blwyddyn Academaidd 2019/2020



**Cardiff
Metropolitan
University**

**Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd**

CYNNWYS

- 1. Croeso gan eich Tîm Addysgu**
- 2. Amodau Cyn Cofrestru**
- 3. Tasg Haf Cyn Mynediad**
- 4. Cofrestru / Casglu Cerdyn Myfyriwr MetCard**
- 5. Amserlen Wythnos Sefydlu**
- 6. Amserlen ddrafft / Presenoldeb Arferol**
- 7. Dolenni defnyddiol**
- 8. Gwybodaeth ar gyfer Lleoliad**

1. Croeso gan eich Tîm Addysgu

Rydym yn falch eich bod wedi dewis astudio cwrs BA (Anrh) mewn Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda rhaglen Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar yn Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Mae tîm y staff am eich croesawu i'ch astudiaethau a rhoi sicrwydd i chi ein bod ni yma i'ch cefnogi i gyrraedd eich nodau. Mae'n debygol y byddwch chi'n cael llawer o gyfleoedd ac yn wynebu rhai heriau ar hyd y daith. Peidiwch â phoeni, rydym ni fel staff yno i'ch helpu chi cymaint â phosibl, o'ch diwrnod cyntaf fel glasfyfyrwr i'ch Diwrnod Graddio ac wedi hynny.

Mae adborth gan ein cyn-fyfyrwyr a'n myfyrwyr presennol yn dweud bod ein cyrsiau'n ysbrydoli ac wedi'u trefnu'n dda, yn cael eu darparu gan diwtoriaid sydd â gwybodaeth dda am yr hyn maent yn ei addysgu ac sy'n awyddus i'w myfyrwyr lwyddo - rydym wedi ymrwymo i sicrhau mai dyma fydd eich profiad chi hefyd.

Yn ystod yr wythnos gyntaf byddwch yn dod yn gyfarwydd â'r rhaglen, eich tiwtoriaid, y campws a'r ddinas, ac wrth gwrs yn gwneud ffrindiau newydd. Byddwch yn cyfarfod y staff a fydd yn eich addysgu ac, yn fwy pwysig, byddwch hefyd yn cyfarfod myfyrwyr eraill yn eich grŵp blwyddyn. Byddwch yn dod i adnabod eich tiwtor personol hefyd, a fydd yn egluro'ch amserlen, gofalu bod popeth yn mynd yn iawn a datrys unrhyw broblemau sydd gennych.

Edrychwn ymlaen at eich cyfarfod, a'ch cefnogi i gyflawni'ch nodau personol a gyrfa.

Tîm Astudiaethau Plentyndod Cynnar a Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar

2. Amodau Cyn Cofrestru

Cyn ymrestru ar y rhaglen mae'n rhaid i bob myfyriwr gwblhau proses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

GWIRIAD Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD

Sefydliad y Llywodraeth yw'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n helpu i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed.

Bydd pob darpar fyfyrwr yn cael Datgeliad Manylach drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn cofrestru ar y rhaglen. Pan nodir problem bydd canlyniadau'r datgeliad yn cael eu hatgyfeirio i banel i'w hystyried a chynghorir y darpar fyfyrwr yn briodol. Mae'n rhaid i fyfyrwyr o wledydd heblaw Prydain sy'n gwneud cais am le ar y rhaglen ddarparu'r wybodaeth hon drwy ffynhonnell gymharol o'u gwlad enedigol cyn ymrestru.

Mae rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a sut i gwblhau'r broses ar-lein ar gael yma: www.cardiffmet.ac.uk/dbs

3. Tasg Haf Cyn Mynediad

Nid oes rhaid prynu cyfarpar arbennig ar gyfer y rhaglen hon.

Bydd pob myfyriwr yn cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau awyr agored yn ardal ysgol y goedwig yn ystod yr Wythnos Sefydlu felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dod â dillad priodol – byddwn yn yr awyr agored waeth beth fo'r tywydd ac mae'n gallu mynd yn fwdlyd iawn. Byddwch chi'n defnyddio'r ardal honno gydol y flwyddyn hefyd felly byddwch angen siaced a throwsus sy'n dal dŵr a phâr o welingtons neu fŵts sy'n dal dŵr.

Llyfrau

Nid oes unrhyw destunau cwrs gorfodol ar gyfer y rhaglenni, ond mae pob modiwl yn cynnwys deunydd darllen gofynnol ac argymelledig. Mae'r holl destunau hyn ar gael drwy'r llyfrgell, y rhan fwyaf ohonynt fel E-lyfrau. **Nid oes rhaid prynu unrhyw un o'r testunau hyn** (er bod rhai myfyrwyr yn hoffi cael eu copïau eu hunain). Mae manylion deunydd darllen gofynnol ac argymelledig y rhaglenni penodol ar Moodle cyn i chi gyrraedd.

4. Cofrestru / Casglu Cerdyn Myfyriwr MetCard

Mae cofrestru'n broses bwysig sy'n cadarnhau'ch statws fel Myfyriwr. Gallwch gwblhau'r broses hunangofrestru ar-lein o unrhyw gyfrifiadur drwy'n system Hunanwasasnaeth. Er mwyn gallu hunangofrestru mae'n rhaid eich bod wedi derbyn cynnig Diamod Cadarn.

Byddwch yn derbyn e-bost yn eich hysbysu o pryd y byddwch yn gymwys i gofrestru ar-lein. Bydd yr e-bost yn eich cyfeirio at gyfleuster ailosod cyfrinair er mwyn gofyn am gyfrinair i allu mewngofnodi a chwblhau'r broses gofrestru. Am wybodaeth ac arweiniad ar y broses hon ewch i'r dudalen gofrestru - www.cardiffmet.ac.uk/enrolment.

Mae'r broses hon yn hanfodol gan y bydd yn rhoi mynediad i'ch benthyciad myfyriwr (os gwnaethoch gais amdano), yn eich galluogi i dalu ffioedd, yn rhoi mynediad i systemau TG Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac yn eich galluogi i gael eich Cerdyn Myfyriwr MetCard.

Byddwch hefyd yn derbyn Llawlyfr y Rhaglen yn ystod yr Wythnos Sefydlu. Mae'r Llawlyfr yn adnodd hanfodol drwy'r Rhaglen a dylech ei gadw i'w ddefnyddio gydol eich cwrs astudio. Bob blwyddyn academiaidd, bydd gwybodaeth ychwanegol am y lefel honno'n cael ei darparu. Mae'r Llawlyfr yn rhoi arweiniad ar Reolau, Rheoliadau a Gweithdrefnau ac ar ddysgu ymarfer gyda gwybodaeth am bob modiwl i'w gwblhau a rhestr darllen.

Cofrestru ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol o'r tu allan i'r UE

Os ydych chi'n fyfyrwr rhyngwladol (o'r tu allan i'r UE) **ni fydd** rhaid i chi gofrestru ar-lein cyn cyrraedd Met Caerdydd. Y rheswm am hyn yw ei bod hi'n ofyniad cyfreithiol i'r brifysgol wirio dogfennau mewnfudo myfyrwyr rhyngwladol cyn caniatáu lle iddynt ar eu cyrsiau. I gael rhagor o wybodaeth am gofrestru myfyrwyr rhyngwladol a rhestr o ddogfennau y bydd angen i chi eu cyflwyno, ewch i [dudalennau myfyrwyr rhyngwladol](http://dudalennau.myfyrwyr.rhyngwladol) neu cysylltwch â'r Tîm Cydymffurfio â Mewnfudo yn immigrationregs@cardiffmet.ac.uk Ffôn: 029 2041 5644.

Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth

Byddwch yn gallu defnyddio Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Met Caerdydd yn fuan ar ôl i chi gofrestru ar-lein. Byddwch yn derbyn e-bost cadarnhau gyda'ch manylion mewngofnodi Met Caerdydd. I weld y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/library.

Eich Cerdyn Myfyriwr MetCard

Mae eich gwybodaeth am eich **Wythnos Sefydlu** yn cynnwys amser penodol ar gyfer casglu eich MetCard. Mae'r MetCard yn rhoi mynediad i brif adeiladau a drysau'r campysau. Gallwch ychwanegu arian i'ch MetCard hefyd er mwyn defnyddio a thalu yn yr argraffyddion a chopiwyd hunanwasanaeth a gwasanaethau'r Stiwdio Argraffu. I weld manteision eraill MetCard [cliciwch yma](#).

Ffioedd

Mae ffioedd y rhaglen ar gyfer mynediad ym mis Medi 2019 yn £9,000. Os oes gan eich rhaglen unrhyw gostau ychwanegol byddant wedi'u rhestru yn www.cardiffmet.ac.uk/additionalcosts. Dylech fod yn ymwybodol o'r costau hyn eisoes.

5. Amserlen Wythnos Sefydlu

Mae eich semester cyntaf fel myfyriwr newydd yn dechrau gydag Wythnos Sefydlu, lle byddwch chi'n setlo yn eich llety, cwrs a'ch bywyd fel myfyriwr. Mae amserlen yr Wythnos Sefydlu'n cynnwys digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu chi i ddod yn gyfarwydd â Met Caerdydd, ei chyfleusterau a'ch cyd-fyfyrwyr. Byddwch yn cael cyfle i fynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau am eich cwrs, gwasanaethau llyfrgell, TG, gwasanaethau myfyrwyr ac undeb y myfyrwyr. Byddwch hefyd yn cyfarfod, ac yn cael nifer o sesiynau, gyda'ch tiwtor personol i sicrhau eich bod yn pontio mor ddidrafferth â phosibl.

Mae'r Brifysgol yn cynnal Ffair Glasfyfyrwyr lle gallwch ymuno â nifer o wahanol gymdeithasau a chlybiau, a digwyddiad cymdeithasol MetFest ar brynhawn Gwener.

Cofiwch ein dilyn a chyfrannu negeseuon ar Twitter #metcaerdydd.

Os ydych chi'n newydd i Gaerdydd bydd digon o gyfleoedd i grwydro'r ddinas hefyd, i wneud ffrindiau newydd a setlo i'ch bywyd newydd.

Mae sefydlu yn achlysur mawr ar y campws ac mae pawb yn cymryd rhan. Peidiwch ag ofni holi pobl - mae'r holl staff a myfyrwyr yn hapus i groesawu unrhyw newydd ar y campws.

Mae'ch digwyddiadau a'ch amserlen yn cael eu trefnu'n derfynol ar hyn o bryd a byddant yn cael eu lanlwytho fel dogfen ar wahân ar ein tudalennau [Myfyrwyr Newydd](#).

6. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Arferol

Mae eich gradd yn cynnwys modiwlau gwahanol, pob un yn trafod pwnc gwahanol gyda'i ddull darparu ac asesu ei hun. Mae manylion ffocws penodol pob modiwl yn cael eu nodi yn llawlyfr y modiwl, sydd ar Moodle. Mae'r rhan fwyaf o'r modiwlau'n 10 neu 20 credyd, gyda 10 credyd yn gyfwerth â 100 awr o astudiaeth academiaidd. Mae hyn yn cynnwys cyfuniad o sesiynau amserlen ffurfiol ac astudiaeth annibynnol. Mae'n rhaid i chi fynychu'r holl sesiynau a addysgir.

Cofiwch eich bod yn ymuno â chymuned ddysgu ble byddwch yn dysgu oddi wrth eich gilydd ac yn cefnogi'ch gilydd gyda'ch datblygiad academiaidd ac wrth ddysgu sgiliau. Mae'n hanfodol eich bod chi'n ymddwyn yn broffesiynol ac yn cymryd rhan yn eich astudiaethau mewn ffyrdd sy'n hwyluso eich cynnydd eich hun a chynnydd myfyrwyr eraill. Os ydych chi'n cael trafferth i reoli'ch amser a'ch llwyth gwaith yn effeithiol trafodwch hyn gyda'ch Tiwtor Personol.

Cynhelir sesiynau amserlen rhwng 9am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nodwch fod 'lle' rhwng sesiynau amserlen yn amser i chi ei ddefnyddio ar ymchwil ac astudiaeth bersonol.

DS: Gall amserlenni newid, hyd at ac yn cynnwys dechrau'r tymor.

Fel myfyriwr blwyddyn gyntaf, byddwch yn gallu gweld eich amserlen derfynol o'r Wythnos Sefydlu, sydd cyn yr wythnos addysgu gyntaf. Nodwch fod angen i chi gofrestru cyn gallu gweld y wybodaeth hon. Os ydych wedi cael cadarnhad o le ond nad ydych wedi clywed a allwch chi gofrestru ai peidio, cysylltwch â Derbyniadau a all roi cyngor i chi.

Fel rhan o'r modiwl 'Chwarae a Dysgu Awyr Agored: Heulwen, Cnocellod y Coed a Chorsydd Mwdlyd', rydym yn falch o gynnig y cyfle i chi ennill cymhwyster Lefel Dau achrededig Ysgol y Goedwig. Byddwn yn cwmpasu'r cynnwys sy'n ofynnol ar gyfer yr achrediad hwn yn y modiwl felly ni fydd angen talu am yr hyfforddiant. Fodd bynnag, bydd angen i chi dalu ffi weinyddol i'r corff achredu, AgoredCymru, i brosesu'ch cymhwyster ar ôl ei gwblhau'n llwyddiannus. £25 yw'r ffi ond gall newid.

Mae cyfle hefyd i wneud cymwysterau ychwanegol a allai gynnwys cost e.e. cymhwyster Diogelu yr NSPCC fel ychwanegiad dewisol yn ystod eich gradd. Mae yna ffi o £20 i astudio'r cymhwyster hwn ar hyn o bryd ond gall newid.

Ar ôl cwblhau'ch gradd yn llwyddiannus byddwch yn cael Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar, a achredir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. I ennill y cymhwyster hwn, bydd gofyn i chi gwblhau 700 awr o brofiad gwaith yn ystod eich gradd. Gall myfyrwyr sy'n methu â chyflawni'r gofyniad hwn fod yn gymwys am ddyfarniad BA (Anrh) Astudiaethau Plentyndod Cynnar (heb Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar). Mae'n debygol y bydd yna gostau teithio'n gysylltiedig â'r lleoliad. Gweler www.cardiffmet.ac.uk/additionalcosts am wybodaeth. Efallai y bydd gofyn i chi brynu ffeil lleoliad addas hefyd. Byddwch yn derbyn manylion am hyn yn ystod yr Wythnos Sefydlu.

7. Dolenni Defnyddiol

[Amserlen](#)

Gallwch weld eich amserlen derfynol yma. Mae angen i chi gofrestru cyn gallwch chi ddefnyddio'r ddolen hon, a byddwn yn cysylltu â chi pan fydd y wybodaeth ar gael.

[Y Swyddfa Ryngwladol a Phartneriaethau](#)

Cyngor i fyfyrwyr rhyngwladol o'r tu allan i'r UE ar gyflwyno cais am fisa, byw yn y DU, gwneud trefniadau llety neu fanteisio ar Wasanaeth Croeso Maes Awyr. Bydd y Swyddfa Ryngwladol a Phartneriaethau'n darparu cymorth lles a chyngor dysgu gydol eich cwrs.

[Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#)

Os yw'ch rhaglen yn golygu eich bod chi'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc neu bobl agored i niwed byddwch wedi cael cais i gynnal gwiriad cofnodion troseddol fel rhan o'ch cynnig.

[Costau Cwrs Ychwanegol](#)

Costau ychwanegol yw'r treuliau gorfodol neu ddewisol sy'n ychwanegol at ffioedd dysgu ac sydd angen eu talu gan fyfyrwyr i gymryd rhan yn llawn a chwblhau eu hastudiaethau. Mae hyn yn cynnwys pethau fel cyfarpar, teithiau, lleoliadau a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gan bob rhaglen gostau ychwanegol gwahanol.

[Llety](#)

Mae myfyrwyr yn gallu symud i Neuaddau o ddydd Gwener 14 Medi ond bydd mynediad i'r rhyngwrwyd ond ar gael i'r rhai sydd wedi cwblhau'r broses gofrestru'n llwyddiannus. Cynhelir digwyddiadau gydol yr Wythnos Sefydlu, a bydd yr adran Lety'n anfon gwybodaeth i chi pan fyddant wedi'u cadarnhau.

[Gwasanaethau Myfyrwyr](#)

Am gymorth gyda materion iechyd, lles, ffordd o fyw a gyrfa yn ystod eich amser gyda ni. Y nod yw darparu'r holl gymorth rydych chi ei angen i sicrhau bod eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosibl. Mae gwasanaethau cwnsela, anableded a chaplaniaeth ar gael hefyd.

[Cyllid Myfyrwyr](#)

I gael gwybodaeth am Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliaeth, grantiau nad oes rhaid eu had-dalu, bwrsariau ac ysgoloriaethau sydd ar gael.

[Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)

[Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) yn cynnwys gwybodaeth i lasfyfyrwyr a bandiau garddwrn

[Dyddiadau Tymhorau](#)

[Mapiau Campws, Llochesi Beiciau a Met Rider](#)

Mae gan Met Caerdydd wasanaeth bws o'r enw Met Rider. Byddwch yn derbyn ffurflen gais gyda'ch gwybodaeth am Sefydlu a Chofrestru. Mae gennym lochesi Storio Beiciau ar bob campws hefyd, gyda llefydd newid a chawodydd. Mae'r llochesi wedi'u cloi ac mae'n rhaid i chi gael MetCard i'w hagor a hynny ar ôl cael caniatâd drwy'r i-barth.

[Cynllun Tacsï Diogel](#)

Mae Met Caerdydd yn gweithredu cynllun Tacsï Diogel drwy Dragon Taxis sy'n sicrhau bod gennych chi ffordd o gyrraedd gartref bob amser.

[Teithiau Rhithwir](#)

Edrychwch o amgylch ein campws a'n cyfleusterau drwy'n teithiau rhithwir tywysedig

[Llawlyfr Myfyrwyr](#)

[Llawlyfr Academaidd](#)

[Polisi Derbyniadau](#)

8. Gwybodaeth ar gyfer Lleoliad

Er mwyn ein helpu i ddod o hyd i leoliad addas i chi dilynwch y ddolen isod i gwblhau [Ffurflen Wybodaeth Lleoliad CSESP ECS 2019 - 2020](#)

Darparwch yr holl wybodaeth ofynnol. Os nad ydych chi'n siŵr am rywbeth, e-bostiwch Cheryl Anthony yn canthony@cardiffmet.ac.uk gyda'ch cwestiynau.

<https://methub.cardiffmet.ac.uk/Form.aspx?id=261138>